Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 22 Mehefin 2016

10.30 - 2.35

Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedyddion:	Fflur Elin, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu
Ymddiheuriadau:	Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ac yn arbennig i Dr Cliona O'Neill, CCAUC, a Fflur Elin, UCMC, fel sylwedyddion. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. 1.3 Adroddwyd bod Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd. Gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod trefnwyd y bydd cyfle i ddiolch yn ffurfiol iddi yn ystod derbyniad blynyddol y Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y Fenni, brynhawn Mercher 3 Awst.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Geraint James ddiddordeb yn yr eitem penodi Cyfarwyddwr i gynrychioli myfyrwyr gan fod ei fab wedi ei ethol yn Lywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) ac yn Swyddog Iaith Gymraeg Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 3 Mawrth 2016	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2016.		
4. Gohebiaeth **(Eitem 4)**	4.1 Derbyniwyd llythyr Grant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Coleg. 4.2 Nodwyd bod cynnwys y llythyr yn gyson â llythyron blaenorol a ffrwyth trafodaethau diweddar ynghyd â chadarnhad o ddyraniad		

	cyllid i'r Coleg tan fis Mawrth 2017. 4.3 Nododd y Cadeirydd bod rheidrwydd ar y Bwrdd i nodi paragraff 6 y llythyr sef: "O ystyried bod ansicrwydd ynghylch cyllid y tu hwnt i 2016/17, anogwn y Coleg i geisio am gyllid gan ffynonellau eraill er mwyn amrywio'i ffrydiau cyllido." 4.4 Trafodwyd y posibilrwydd y gallai dyraniad cyllid newid i gyllid blwyddyn academaidd yn dilyn argymhellion yn adroddiad Diamond. 4.5 Yn dilyn cwestiwn gan aelod o'r Bwrdd ynghylch parhau i gyllido'r Dystysgrif Sgiliau Cymhwysedd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (paragraff 26 y llythyr), cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Cyllido nad oes disgwyliad i'r Coleg gefnogi'r cynllun o'i gyllideb bresennol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y prosiect a'r angen am gyllid atodol i'w ddatblygu yn 2016/17.		
5. Materion y Cadeirydd	5.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd. Nododd ei bryderon ynghylch yr ansicrwydd mewn perthynas â chyllideb y Coleg wedi 2017. Cyfeiriwyd at y posibilrwydd y gallai argymhellion Adolygiad Diamond, a gyhoeddir fis Medi, argymell trefn fwy parhaol. 5.2 Diolchwyd i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion am eu gweithgaredd yn ystod y flwyddyn yn cyflwyno sefyllfa'r Coleg mewn cyfarfodydd gyda gwleidyddion, swyddogion ac eraill. 5.3 Adroddodd y Cadeirydd, Andrew Green, na fyddai'n ymgeisio am ail-dymor fel cadeirydd pan ddaw ei dymor i ben ar 31 Mawrth 2017. 5.4 Ar ran aelodau'r Bwrdd, diolchodd y Prif Weithredwr iddo am ei gyfraniad lawn at waith y Coleg a bydd cyfle i gydnabod ei arweiniad yn ffurfiol maes o law.		

6. Materion cyfansoddiadol	6.1 Cytunwyd i ohirio trafodaeth sefydlu is-gwmni i'r Coleg yn sgil absenoldeb yr Athro Iwan Davies.	Cyflwyno papur yr is-gwmni	Cyn diwedd 2016
7. Pwyllgor Penodiadau	7.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ar y broses o benodi cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, yn sgil ymddiswyddiad Beth Button. Adroddwyd bod Fflur Elin, wedi ei henwebu, a bydd cyfweliad a hyfforddiant yn rhan o'r broses penodi. 7.2 Yn amodol ar un cywiriad, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2016. Cafwyd adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd ar faterion yn codi o'r cofnodion gan gynnwys y broses o benodi Cadeirydd y Coleg. Trefnir cyfarfod ym mis Gorffennaf i ddechrau'r broses pan fydd yr aelodau yn trafod yr opsiynau ar gyfer darparu cydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd. 7.3 Adroddwyd bod aelodau'r pwyllgor wedi nodi cyfnodau gwasanaeth aelodau presennol y Bwrdd. Ar gyfer y dyfodol nodwyd yr angen i sicrhau bod yr ystod lawn o sgiliau a phrofiad sydd ei angen ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn cael eu cynrychioli. Cyfeiriwyd at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gofynion llythyr Grant CCAUC (paragraff 17).	Cywiro cofnod	Mehefin 2016
8. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 8)**	8.1 Derbyniwyd diweddariad ar waith y Coleg mewn adroddiad gan y Prif Weithredwr a thrafodwyd y materion canlynol: • Diolchwyd y Cofrestrydd am ei waith yn drafftio'r cynllun academaidd newydd. • Cynllun Strategol yn parhau tan Gorff 2017. Drafftio cynllun newydd erbyn Awst 2017. • Diweddariad ar y Cynllun Staffio. Yn gyffredinol bydd deiliaid y swyddi sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2016 yn parhau mewn swyddi academaidd yn 2016/17 ond nodwyd bod ansicrwydd	Cynllun Strategol newydd	Awst 2017

	yn parhau mewn sawl achos. Cyfeiriodd y Deon at y gwaith bugeiliol ychwanegol sydd wedi bod ynghlwm â'r sefyllfa gan gynnwys gohebu'n gyson â'r staff. Nodwyd bod Dr Dylan Phillips yn cynnal cyswllt agos gyda deiliaid swyddi cynllun staffio er mwyn sicrhau bod y Coleg yn medru bod yn ymwybodol o gymhlethdod rhai o'r sefyllfaoedd yn wyneb yr ansicrwydd cyllidol cyffredinol. • Diweddariad ar y paratoadau ar gyfer y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, 2016. • Bydd Cynllun Gweithredu 2016/17 newydd yn cael ei baratoi maes o law ac i'w gadarnhau trwy ohebiaeth. • Cynllun Peilot y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Adroddwyd bod adborth yn dangos galw mawr am dystysgrif o'r fath. Trafodwyd yr angen i gynnwys addysg bellach yn y dystysgrif ac y dylid codi hynny â Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai'r Cyngor Cyllido'n croesawu petai'r dystysgrif yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. • Gwobrau'r Coleg. Cadarnhawyd y dyfarnwyd Gwobr Goffa Dr John Davies i Catrin Howells, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd am y traethawd estynedig gorau a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes Hanes Cymru. • Cadarnhau newidiadau trefniadol y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn sgil achrediad gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Daw'r newidiadau trefniadol i rym yn 2016/17 a bydd y Coleg yn cyhoeddi cylchlythyr i'r prifysgolion yn amlinellu'r newidiadau. Adroddwyd bod cyfeiriad at y dystysgrif yn Adroddiad Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a baratowyd gan y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol dan gadeiryddiaeth Rhodri Glyn Thomas. • Canolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig. Adroddwyd y cafwyd trafodaethau pellach â'r byrddau iechyd a'r cyrff perthnasol ond bod y swyddogion wedi argymell i'r Pwyllgor Archwilio a Risg nad yw'r Coleg yn gallu cynnig y math o wasanaethau cefnogi a awgrymwyd. Mae trafodaethau'n	Gwahoddiad i agoriad y Pafiliwn Gwyddoniaeth Cynllun Gweithredu 2016/17	Gorffennaf 2016 Haf 2016

	digwydd er mwyn archwilio cyfleoedd i'r Coleg ddarparu cyngor i'r Ganolfan newydd mewn dull ffurfiol, ac i dderbyn cydnabyddiaeth am hynny. • Diweddariadau ar waith marchnata a chyfathrebu, gweithgareddau ym maes Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg, Rhaglenni Hyfforddiant Academaidd a *Gwerddon.* • Diweddariad ar y Gofrestr Risg. Nodwyd bod un risg strategol newydd ar y rhestr sef ystyried effaith newidiadau yn y sector addysg uwch yn Lloegr ar y cyd-destun Cymreig.		
9. Materion Staffio	9.1 Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2016. 9.2 Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar faterion staffio. Adroddwyd bod Owain Huw, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi gadael y Coleg ac y penodwyd Rhys Williams i ddechrau ar 11 Gorffennaf, yn ei le. Adroddwyd ymhellach bod Eiry Miles (Prif Diwtor Iaith) a Rhinedd Williams (Rheolwr Swyddfa) yn gadael y Coleg fis Awst. Nid oes argymhelliad ar swydd y Prif Diwtor Iaith ar hyn o bryd oherwydd newidiadau yn sgil sefydlu trefniadau achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith yn CBAC. Mae natur swydd y Rheolwr Swyddfa wedi newid ac argymhellir i'r Pwyllgor Staffio y dylid hysbysebu am Uwch Swyddog Gweinyddiaeth cyn gynted â phosibl. 9.3 Cafwyd adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd ar faterion yn codi o'r cofnodion ac yn benodol ar y trafodaethau ar bolisi cyflogau'r Coleg lle penderfynwyd ar nifer o newidiadau gan gynnwys bod codiadau rhicyn yn ddibynnol ar lefel perfformiad derbyniol. 9.3 Adroddwyd y byddai'r Pwyllgor Staffio yn cyfarfod dros ginio heddiw er mwyn adolygu'r penderfyniad blaenorol i rewi swyddi sydd yn dod yn wag.		

10. Materion Cyllid **(Eitem 10 a 10a)**	10.1 Cyflwynwyd cyllideb y Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y gyllideb yn seiliedig ar y dyraniad cyllid gostyngedig o £5.4miliwn a ddarperir yn Llythyr Grant y Coleg gan y Cyngor Cyllido. 10.2 Nodwyd bod y swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Risg y Coleg, ers dros flwyddyn bellach, wedi cynllunio ar sut y gellid sicrhau cyllideb deuddeg mis yn seiliedig ar gyfuniad o'r dyraniad cyllid am y flwyddyn a rhywfaint o gyllid o gronfeydd wrth gefn. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried pa lefel o gronfeydd wrth gefn sy'n addas yn sgil aros am argymhellion Adolygiad Diamond ar gyllido addysg uwch yng Nghymru a datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch cynnal buddsoddiad y Coleg ar 'lefel sy'n cynnal y momentwm presennol'. 10.3 Nodwyd ymhellach bod yr arbedion a wnaed yn ystod y deunaw mis diwethaf wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn. 10.4 Gofynnodd un aelod o'r Bwrdd a fyddai yn bosibl cynnig rhagor o ysgoloriaethau ar ddechrau wythnos groeso'r prifysgolion. Cytunwyd i ystyried a ellid defnyddio swm cymharol fychan o gyllid nad yw'n tarddu o'r Cyngor Cyllido petai angen. Eglurwyd y cyfyngiadau cyllidebol presennol ac argymhellwyd edrych ar opsiynau eraill i'w hariannu ymhellach yn y dyfodol. 10.5 Cyflwynwyd eitem 10a ar y bwrdd gan Dr Dylan Phillips, sef papur atodol, sy'n arddangos yr amrywiadau rhwng manylion y gyllideb a gytunwyd yn Llandrindod ym mis Medi 2015 a'r ffigyrau terfynol ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd y manylion hyn. 10.6 Cytunwyd i gyllideb ar gyfer 2016/17 o £6.5 miliwn, yn cynnwys yr ysgoloriaethau, gan dynnu ar y cronfeydd wrth gefn. Nododd Dr Cliona O'Neill bod CCAUC o'r farn bod hyn yn briodol. Nodwyd nad ydy hynny'n gynaliadwy y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ond bod y swyddogion yn hyderus y bydd penderfyniadau		

	gwleidyddol yn cael ei gwneud yn ystod y cyfnod nesaf a fydd yn sicrhau cyllideb addas i'r dyfodol.		
11. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitem 11)**	11.1 Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg, a gynhaliwyd ar 23 Mai 2016, a chafwyd adroddiad ar y cyfarfod gan y Cadeirydd, Geraint James. Nodwyd bod archwiliad mewnol ar (i) systemau caffael a gwariant a (ii) systemau cyflogres a threuliau'r Coleg wedi arddangos sicrwydd sylweddol yn y systemau. Bydd adroddiad nesaf yr archwilwyr mewnol yn canolbwyntio ar ganghennau'r Coleg.		
12. Cynllun Academaidd newydd	12.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y camau a gymerwyd i ddechrau paratoi Cynllun Academaidd newydd y Coleg. 12.2 Nodwyd y bu ymgynghoriad â'r prifysgolion cyn y cafwyd trafodaeth lawn yn y Bwrdd Academaidd ar 11 Mai 2016 i drafod egwyddorion y cynllun. 12.3 Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a nodwyd nifer o awgrymiadau i'w hystyried wrth baratoi drafft cyntaf o'r cynllun newydd. 12.4 Cytunwyd ar y camau nesaf sef cyflwyno papur i'r Bwrdd Academaidd ar 20 Gorffennaf 2016, ac i'r Bwrdd ym mis Medi 2016.	Papur i'r Bwrdd Academaidd	20 Gorffennaf 2016
13. Dosraniad pynciau **(Eitem 13)**	13.1 Cyflwynwyd papur gan y Cofrestrydd ar ddosraniad pynciau i gategorïau ar gyfer dibenion cynllunio yn y dyfodol. Eglurwyd bod angen fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau cyllido. 13.2 Cafwyd trafodaeth lawn ar egwyddorion y fframwaith gan gynnwys argymhellion pellach i'w cynnwys yn y papur a chytunwyd i fabwysiadu'r papur gyda man sylwadau.		

14. Mesuryddion **(Eitem 14)**	14.1 Cyflwynwyd papur gan y Cofrestrydd yn cynnig mesuryddion ar gyfer cynnydd y Coleg yn erbyn targedau. 14.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r Coleg ddatblygu'r mesuryddion hyn wrth drafod targedau ar gyfer y dyfodol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido.		
15. Darlithwyr cysylltiol **(Eitem 15)**	15.1 Cyflwynwyd papur gan Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, i sefydlu trefniadau ar gyfer darlithwyr cysylltiol y Coleg. Eglurwyd bod sefydlu categori o aelodaeth gysylltiol yn sicrhau na fyddai'r Coleg yn colli cysylltiad â darlithwyr. 15.2 Yn dilyn trafodaeth yn nodi rhai argymhellion cytunwyd i gymeradwyo'r cysyniad o greu Darlithwyr Cysylltiol y Coleg.		
16. Bwrdd Academaidd	16.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016, ar y materion canlynol: • Nodwyd bod aelodau Grŵp Ymgynghorol y Coleg wedi mynychu'r cyfarfod i drafod y Cynllun Academaidd newydd ac y bydd cyfarfod ychwanegol ar 20 Gorffennaf 2016 i drafod y cynllun ymhellach. • Derbyniwyd adroddiadau ar Ehangu Mynediad ac Ymchwil a Chyhoeddi. • Nodwyd bod Prifysgol Glyndŵr wedi penodi Swyddog Cangen. • Nodwyd bod y myfyrwyr yn parhau i gyflwyno pwnc trafod yn y cyfarfodydd ac y trafodwyd deunyddiau astudio ar yr achlysur hwn. • Nodwyd diolch i Jacob Ellis, aelod myfyrwyr, am ei gyfraniad yn sefydlu cynrychiolaeth myfyrwyr y Coleg. • Nododd y Deon bod gwaith bugeiliol wedi cynyddu yn sgil y gofid ynghylch y cynllun staffio. • Nododd y Deon ei fod wedi ymweld â Choleg Meirion Dwyfor		

	am y tro cyntaf. Nododd ei yn ogystal fod wedi mynychu Gŵyl MAP a chynadleddau Chwaraeon a Gwyddonol. Nododd na fyddai'r digwyddiadau yn cael eu cynnal heb gymorth y Coleg. • Nododd bod canghennau De Cymru a Chaerdydd yn rhannu arfer da ymysg darlithwyr a bod sesiwn ymchwil yn cael ei gynnal yng nghyfarfod cangen y Drindod Dewi Sant. Diolchwyd i'r Deon am ei adroddiad ac am ei waith manwl yn ystod y flwyddyn.		
17. Materion yn codi	17.1 Eitem 16.1 - Rhwydwaith Seren. Nodwyd bod y Coleg wedi cyfrannu i drafodaeth yn SOAC (Student Opportunity Achievement Committee) y Cyngor Cyllido pan fynegwyd anfodlonrwydd ynghylch nifer o weithgareddau'r rhwydwaith.		
18. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	18.1 Nid oedd unrhyw adroddiadau gan y Cyfarwyddwyr.		
19. Unrhyw fusnes arall	19.1 Adroddwyd ar drefniadau'r Coleg yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016 gan gynnwys y derbyniad, darlith flynyddol a draddodir gan Dr Dylan Foster Evans, lansiad cyfrolau a dyfarnu gwobrau Merêd a Dr John Davies.		
20. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	20.1 Cadarnhawyd cyfarfodydd y Bwrdd yn y flwyddyn academaidd 2016/17 fel a ganlyn: • 14 a 15 Medi 2016, Caerdydd • 23 Tachwedd 2016, Bangor • Cyfarfod y Llys, 8 Mawrth 2017 • Cyfarfod y Bwrdd yn nhymor y Gwanwyn 2017. Cytunwyd i drefnu'r cyfarfod hwn ar wahân i gyfarfod y Llys. Dyddiad i'w gadarnhau gan y swyddogion, maes o law. • 21 Mehefin 2017, Prifysgol De Cymru, Trefforest		

	20.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Aberystwyth am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.		